

Addysg / Education

Moderneiddio Addysg / Modernising Education

(01286) 679247 Ein Cyf / Our Ref:
moderneiddioaddysg@gwynedd.llyw.cymru
modernisingeducation@gwynedd.llyw.cymru



30 Medi 2026

At: Holl ymgynghorai yn gysylltiedig â'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion

Annwyl Randdeiliad,

Cynnig i gau Ysgol Baladeulyn – Hysbysiad o Benderfyniad

Ar ddydd Mawrth 15 Medi 2026, cymeradwyodd Cabinet Cyngor Gwynedd yn derfynol y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn ar 31 Rhagfyr 2026 a chynnig lle i'r dysgwyr yn Ysgol Talysarn o 1 Ionawr 2027 ymlaen. Yn unol â chyfansoddiad Cyngor Gwynedd, daeth penderfyniad y Cabinet yn weithredol ar 30 Medi 2026.

Yn unol â'r penderfyniad, bydd Ysgol Baladeulyn yn cau ar 31 Rhagfyr 2026. Bydd dysgwyr presennol Ysgol Baladeulyn yn trosglwyddo i Ysgol Talysarn o 1 Ionawr 2027 ymlaen, oni bai fod rhieni/gwarchodwyr yn dewis gwneud cais i drosglwyddo i ysgol arall yn unol â'r drefn Mynediad. O'r dyddiad hwnnw ymlaen, Ysgol Talysarn fydd yr ysgol ddalgylch ar gyfer dalgylch presennol Ysgol Baladeulyn.

Y Broses Statudol a'r Ystyriaeth o'r Cynnig


Cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ar y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn rhwng 10 Rhagfyr 2025 a 28 Ionawr 2026. Yn dilyn yr ymgynghoriad paratowyd a chyhoeddwyd Adroddiad Ymgynghori a oedd yn crynhoi'r materion a godwyd gan ymgynghorai ac yn nodi ymateb y Cyngor i'r materion hynny. Ar 19 Mai 2026, ystyriodd Cabinet Cyngor Gwynedd gynnwys yr Adroddiad Ymgynghori a'r wybodaeth berthnasol arall cyn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig drwy gyhoeddi hysbysiad statudol.

Cyhoeddwyd yr hysbysiad statudol ar 3 Mehefin 2026, gan gychwyn y cyfnod gwrthwynebu statudol a ddaeth i ben ar 30 Mehefin 2026. Derbyniwyd 25 o wrthwynebiadau i'r cynnig. Derbyniwyd hefyd ddeiseb yn gwrthwynebu'r cynnig a oedd yn cynnwys 500 o lofnodion.

Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, paratowyd a chyhoeddwyd Adroddiad Gwrthwynebu, yn nodi'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd ac ymatebion y Cyngor i'r materion a godwyd. Cyflwynwyd yr Adroddiad Gwrthwynebu ynghyd â'r atodiadau a'r wybodaeth berthnasol arall, i'r Cabinet ar 15 Medi 2026 i'w ystyried cyn gwneud penderfyniad terfynol ar y cynnig.

Mae'r Adroddiad Gwrthwynebu a'r atodiadau perthnasol ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd <https://www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg>. Mae holl ddogfennau perthnasol eraill y broses statudol hefyd ar gael ar yr un dudalen, gan gynnwys y ddogfen ymgynghori, yr Adroddiad Ymgynghori, yr Hysbysiad Statudol a'r asesiadau effaith perthnasol.

Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, mae copïau o'r Adroddiad Gwrthwynebu hefyd ar gael ar gais drwy anfon e-bost at ModerneiddioAddysg@gwynedd.llyw.cymru neu drwy ffonio 01286 679247.



Mae Cyngor Gwynedd yn gweithredu yn ddwyieithog, ac ni fydd unrhyw wahaniaeth yn ein hymateb i ohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd LL55 1SH
01766 771000
www.gwynedd.llyw.cymru

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money

Wrth benderfynu ar y cynnig, rhoddodd y Cabinet ystyriaeth i'r ffactorau perthnasol yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (11/2018), gan gynnwys:

- Ansawdd a safonau mewn addysg
- Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion
- Adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill
- Ffactorau cyffredinol eraill
- Ffactorau penodol wrth ystyried cau ysgolion
- Rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig a'r asesiadau effaith cysylltiedig, sef
 - Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio
 - Yr effaith debygol ar y Gymuned
 - Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg
- Cydraddoldeb
- Yr Iaith Gymraeg
- Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol 2015

Ansawdd a safonau mewn addysg

Yn ôl adroddiadau diweddaraf Estyn, mae'r ysgol amgen, Ysgol Talysarn yn cynnig addysg o ansawdd a safon sydd fan lleiaf yn gyfatebol i'r hyn a ddarperir yn Ysgol Baladeulyn ar hyn o bryd. O ganlyniad, mae'r Cyngor o'r farn y byddai gweithredu'r cynnig yn rhoi mwy o gyfleoedd i'r dysgwyr gydweithio a chymdeithasu â chyfoedion, yn ogystal â manteisio ar ystod ehangach o brofiadau cwricwlaidd ac allgyrsiol.

Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion

Mae Ysgol Baladeulyn yn wynebu niferoedd isel iawn o ddysgwyr ynghyd â lefel uchel o leoedd gweigion. Ar sail ffigyrau CYBLD Ionawr 2026, rhagwelir yn mis Medi 2026 y bydd 4 o lefydd gweigion (a 3 o lefydd gwag ar gyfer y Meithrin) yn Ysgol Talysarn. Ar sail y wybodaeth yma, rhagwelir y bydd gan Ysgol Talysarn ddigon o gapasiti ar gyfer dysgwyr presennol Ysgol Baladeulyn sydd yn byw yn nalgylch Baladeulyn. Cydnabyddir os fyddai holl ddysgwyr Ysgol Baladeulyn yn penderfynu symud i Ysgol Talysarn, mae'n bosibl y bydd nifer y dysgwyr yn fwy na'r capasiti.

Adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill

Amcangyfrifir y byddai gweithredu'r cynnig yn arwain at arbediad blynyddol o oddeutu £120,000 mewn costau refeniw, ar ôl ystyried costau cludiant ychwanegol o hyd at £30,000 y flwyddyn. Mae'r amcangyfrif hwn o gostau cludiant yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y byddai holl ddysgwyr dalgylch Ysgol Baladeulyn sy'n gymwys i gael cludiant o dan bolisi presennol y Cyngor yn mynychu Ysgol Talysarn.

Bydd gweithredu'r cynnig yn rhesymoli'r gost fesul dysgwr ac yn lleihau'r amrediad yn y gost fesul dysgwr ar draws ysgolion cynradd Gwynedd. Ar sail cyllideb 2026–27, amcangyfrifir y byddai'r gost fesul dysgwr yn Ysgol Talysarn yn £5,883, o'i chymharu â £25,123 fesul dysgwr yn Ysgol Baladeulyn ar hyn o bryd. Y cyfartaledd sirol ar gyfer yr un cyfnod yw £5,998 fesul dysgwr.

Ffactorau penodol wrth ystyried cau ysgolion

Mae'r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth ofalus i ystod o opsiynau amgen, gan gynnwys ffederaleiddio, ysgol aml-safle ac opsiynau a gyflwynwyd gan randdeiliaid yn ystod y broses statudol. Yn dilyn asesiad manwl, daethpwyd i'r casgliad na fyddai'r un o'r opsiynau hynny'n mynd i'r afael yn ddigonol â'r heriau sy'n wynebu'r ysgol, gan gynnwys niferoedd isel o ddysgwyr, canran uchel o leoedd gweigion, dosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang a'r heriau ariannol cysylltiedig.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y byddai cau'r ysgol yn cael effaith ar y gymuned leol ac ar ddefnydd cymunedol o'r Gymraeg. Fodd bynnag, wedi pwyso a mesur yr holl ffactorau perthnasol, daethpwyd i'r casgliad mai gweithredu'r cynnig yw'r ymateb mwyaf priodol i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol.

Y rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig

Mae Ysgol Baladeulyn wedi'i dynodi'n ysgol wledig at ddibenion Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018. O ganlyniad, rhoddwyd sylw penodol i'r rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau ysgolion gwledig a'r gofyniad i ystyried pob opsiwn rhesymol arall cyn cyflwyno cynnig cau.

Datblygwyd y cynnig mewn ymateb i'r heriau sy'n wynebu Ysgol Baladeulyn, sef:

- niferoedd isel iawn o ddysgwyr, gydag 6 o ddysgwyr Derbyn i Flwyddyn 6 a dau ddysgwr Meithrin ar y gofrestr ym mis Ionawr 2026, a'r niferoedd wedi gostwng ymhellach i 7 ddysgwr Derbyn i Flwyddyn 6 a dim dysgwr Meithrin erbyn Medi 2026;
- canran uchel iawn o leoedd gweigion, gyda 49 o leoedd gweigion o gyfanswm capasiti o 55 ar gyfer dysgwyr Derbyn i Flwyddyn 6, sef 89% o gapasiti'r ysgol, ynghyd â phump lle gwag yn y Meithrin;
- dosbarthiadau bychain ac amrediad oedran eang, gydag amrediad o hyd at wyth mlynedd mewn un dosbarth;
- rhagamcanion yn dangos y byddai'r niferoedd yn parhau'n isel, gyda 7 dysgwr Derbyn i Flwyddyn 6 ac un dysgwr Meithrin wedi'u rhagweld ar gyfer Medi 2028;
- cyfran uchel o blant y dalgylch yn mynychu ysgolion eraill, gyda dim ond dau o'r 8 plentyn a oedd yn byw yn y dalgylch, sef 25%, yn mynychu Ysgol Baladeulyn ym mis Ionawr 2026;
- dibyniaeth yr ysgol ar swm ychwanegol i'r dyraniad cyllidol craidd, sef £74,446 drwy Bolisi Gwarchodaeth Lleiafswm Staffio'r Cyngor yn ystod blwyddyn ariannol 2026/27; a
- chost gyfartalog o £25,123 fesul dysgwr, o'i chymharu â chyfartaledd sirol o £5,998 yn ystod yr un flwyddyn ariannol.

Wrth wneud ei benderfyniad, ystyriodd y Cabinet yr holl dystiolaeth ochr yn ochr â'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd, yr opsiynau amgen a gyflwynwyd a chasgliadau'r asesiadau effaith perthnasol. Roedd y Cabinet yn fodlon nad oedd yr opsiynau amgen, gan gynnwys ffedereiddio, yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r rhesymau dros lunio'r cynnig nac yn darparu datrysiad cynaliadwy i'r ddarpariaeth addysgol yn y tymor hir.

Roedd y Cabinet yn fodlon y byddai gweithredu'r cynnig yn ymateb i'r heriau hyn drwy:

- ymateb i'r niferoedd isel o ddysgwyr yn Ysgol Baladeulyn, y rhagamcanion sy'n dangos y byddai'r niferoedd yn parhau'n isel a'r ganran uchel o leoedd gweigion;
- galluogi'r dysgwyr i gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy addas a chyda llai o amrediad oedran na'r sefyllfa bresennol;
- galluogi'r dysgwyr i gael eu haddysgu ochr yn ochr â grŵp ehangach o gyfoedion;
- dod â'r gost fesul dysgwr yn nes at y cyfartaledd sirol a dileu'r angen am ddyraniad drwy'r Polisi Gwarchodaeth Lleiafswm Staffio yn Ysgol Baladeulyn;
- sicrhau parhad addysg cyfrwng Cymraeg drwy ddarparu lle i'r dysgwyr yn Ysgol Talysarn, sydd hefyd yn ysgol gymunedol cyfrwng Cymraeg, Categori 3; a
- darparu lle i'r dysgwyr mewn ysgol nad yw'n golygu y byddai unrhyw ddysgwr o ddalgylch Baladeulyn yn gorfod teithio pellter afresymol, gyda chludiant yn cael ei ddarparu yn unol â Pholisi Cludiant Addysg Cyngor Gwynedd, lle bo hynny'n berthnasol.

O ganlyniad, wedi ystyried yr holl wybodaeth, dystiolaeth ac asesiadau perthnasol, roedd y Cabinet yn fodlon mai gweithredu'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn ar 31 Rhagfyr 2026 a darparu lle i'r dysgwyr yn Ysgol Talysarn o 1 Ionawr 2027 ymlaen oedd yr ymateb mwyaf priodol i'r rhesymau a nodwyd dros lunio'r cynnig, ac y byddai'n sicrhau darpariaeth addysgol fwy cynaliadwy i'r dyfodol.

Yn unol â'r penderfyniad hwn, bydd Ysgol Baladeulyn yn cau ar 31 Rhagfyr 2026 a bydd dysgwyr yn trosglwyddo i Ysgol Talysarn o 1 Ionawr 2027 ymlaen. Bydd Cyngor Gwynedd yn gweithio gyda'r dysgwyr, rhieni, staff a'r ysgolion perthnasol er mwyn sicrhau trefniadau pontio priodol.

Cyfeirio Penderfyniadau'r Awdurdod Lleol at Weinidogion Cymru

Yn unol ag adran 54 o Ddeddf 2013, o fewn 28 diwrnod i benderfyniad y Cabinet, gall y cyrff canlynol gyfeirio'r cynnig at Weinidogion Cymru i'w ystyried:

- i. Awdurdod lleol arall y mae'r cynigion yn effeithio arno;
- ii. Y corff crefyddol priodol ar gyfer unrhyw ysgol yr effeithir arni;
- iii. Corff llywodraethu ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun cynigion;
- iv. Ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun cynigion;
- v. Sefydliad addysg bellach y mae'r cynigion yn effeithio arni.

Bydd angen i'r corff sy'n at-gyfeirio nodi pam eu bod yn credu bod y penderfyniad a wnaeth yr awdurdod lleol yn anghywir. Bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu a ydy'r cynnig yn effeithio ar y cyrff ac a oes angen iddynt ystyried y cynnig.

Os ydych angen gwybodaeth bellach, croeso i chi gysylltu gyda ModerneiddioAddysg@gwynedd.llyw.cymru.

Yn gywir,

Gwern ap Rhisiart
Pennaeth Addysg
Cyngor Gwynedd